Adroddiad ar y ddarpariaeth addysg bellach yng

Ngholeg Gwent

Y Radyr
Brynbuga
Sir Fynwy
NP15 1XJ

Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2026

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant

yng Nghymru

## Ynglŷn â Choleg Gwent

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Coleg Gwent |
| Manylion am ddarpariaeth / rhaglenni addysg bellach y coleg (h.y. mwy ar gymeriad y coleg a'i arbenigeddau) | Coleg Gwent yw'r coleg addysg bellach mwyaf yng Nghymru, yn gwasanaethu cymunedau ar draws pum awdurdod lleol yn ne ddwyrain Cymru. Mae'n darparu cyrsiau o lefel mynediad i lefel 5 mewn chwe safle ar draws pum prif gampws yn Crosskeys, Casnewydd, Torfaen, Glynebwy a Brynbuga. Mae gan y coleg ddarpariaeth ar draws pob maes sector pwnc. |
| Unrhyw newidiadau arwyddocaol ers yr arolygiad diwethaf, e.e. newidiadau yn enw'r darparwr neu'r campysau, uno, cyfuno neu newid mewn perchnogaeth | Sefydlwyd campws Parth Dysgu Torfaen ym mis Ionawr 2021 gan ddisodli'r campws blaenorol ym Mhont-y-pŵl yn rhan o greu darpariaeth drydyddol newydd yn Nhorfaen. Roedd cau bron pob chweched dosbarth mewn ysgolion yn Nhorfaen yn cyd-fynd â'r datblygiad hwn. Agorwyd canolfan HiVE (Peirianneg Gwerth Uchel) newydd yng Nglynebwy ym mis Medi 2025, wedi'i hariannu gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent a Rhaglen Cymoedd Technoleg. Mae canolfan HiVE yn cynnig darpariaeth peirianneg a gweithgynhyrchu uwch. |
| Nifer y dysgwyr ar gyrsiau addysg bellach amser llawn | 6735 |
| Nifer y dysgwyr ar gyrsiau addysg bellach rhan-amser | 6790 |
| Nifer y dysgwyr â Chynlluniau Datblygu Unigol (CDUau) | 419 |

| | |
|---|---|
| Nifer y dysgwyr sydd â phrofiad o fod mewn gofal | 147 |
| Nifer y dysgwyr sy'n ofalwyr ifanc | 167 |
| Nifer y dysgwyr sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd neu'n nodi eu bod yn siarad Cymraeg? | 261 (yn rhugl) |
| Nifer y dysgwyr o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig | 895 |
| Nifer y dysgwyr o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig (y ddau gwintel uchaf ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru) | 4,010 |
| Nifer y dysgwyr sy'n hawlio Lwfans Cynhaliaeth Addysg (EMA) | 2,074 |
| Nifer y staff cyfwerth ag amser llawn (CALl) a gyflogir yn uniongyrchol gan y coleg | 591 o athrawon addysg bellach cofrestredig a 31 o staff cymorth dysgu addysg bellach cofrestredig (data cofrestredig Cyngor y Gweithlu Addysg ar gyfer 2025) |
| Perchnogaeth o'r coleg (corfforaeth addysg bellach annibynnol neu is-gwmni o dan berchnogaeth lwyr sefydliad addysg uwch) | Corfforaeth addysg bellach annibynnol |
| Dyddiad penodi'r Prif Weithredwr / Pennaeth | Penodwyd y Prif Weithredwr a Phennaeth ym mis Medi 2024 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/04/2018 |

## Crynodeb

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu ac yn ymgysylltu'n dda â'u hastudiaethau. Bron ym mhob sesiwn, mae ymddygiad yn barchus ac mae dysgwyr yn dal ati i ganolbwyntio'n briodol. Mae llawer ohonynt yn gweithio'n effeithiol, yn annibynnol ac ar y cyd, yn enwedig mewn lleoliadau ymarferol a chreadigol lle maent yn dangos balchder yn eu gwaith ac yn cynnal amgylcheddau diogel a threfnus. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn datblygu gwybodaeth addas a medrau ymarferol ar gyfer eu cyfnod dysgu ac yn cymhwyso'r rhain yn briodol mewn cyd-destunau galwedigaethol ac academaidd. Fodd bynnag, at ei gilydd, mae deilliannau dysgwyr ar draws rhaglenni galwedigaethol a Safon Uwch wedi bod islaw cyfartaleddau cenedlaethol dros gyfnod, er gwaethaf arwyddion diweddar o welliant mewn data perfformiad.

Mae bron pob un o'r athrawon yn creu amgylcheddau dysgu digynnwrf a phwrpasol ac yn dangos gwybodaeth bynciol gadarn. Mae llawer ohonynt yn cynllunio sesiynau'n ofalus ac yn defnyddio arddangosiadau ac esboniadau'n effeithiol i gefnogi dysgu. Yn aml, mae adborth adeiladol yn helpu dysgwyr i ddeall sut i wella, ac mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn datblygu medrau llythrennedd cadarn a medrau digidol priodol i gefnogi eu gwaith. Fodd bynnag, mae ansawdd yr addysgu yn rhy amrywiol. Mewn gormod o sesiynau, mae diffyg manylder i'r holi ac mae'n dibynnu'n helaeth ar ddulliau caeedig, gan gyfyngu ar gyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu medrau meddwl lefel uwch. Mewn llawer o achosion, nid yw athrawon yn darparu estyniad a her ddigonol, yn enwedig ar gyfer dysgwyr mwy abl. Mewn ychydig o sesiynau, ni chaiff yr addysgu ei addasu'n ddigon da i ddiwallu anghenion dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Hefyd, nid yw cyfleoedd i ddatblygu medrau Cymraeg a dealltwriaeth o ddiwylliant Cymru wedi eu datblygu'n ddigonol ar draws llawer o'r cwricwlwm.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn teimlo'n ddiogel ar y campws ac mae ganddynt berthnasoedd cadarnhaol â staff a chyfoedion. Mae'r coleg yn hyrwyddo amgylchedd cynhwysol a chefnogol, y mae dull sy'n ystyriol o drawma yn sail iddo, sydd wedi cyfrannu at ostyngiadau mewn digwyddiadau ymddygiadol. Mae dysgwyr yn elwa ar ystod eang o wasanaethau cymorth, yn cynnwys gofal bugeiliol, cwnsela a chyfarwyddyd gyrfaoedd, ac mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwybod sut i fanteisio ar y gwasanaethau hyn. Mae dysgwyr hefyd yn elwa ar ystod eang o weithgareddau cyfoethogi sy'n cefnogi eu datblygiad personol a chynllunio dilyniant. Mae presenoldeb yn nodweddiadol ar gyfer y sector, gydag ychydig o feysydd o bresenoldeb isel ac achosion o fod yn hwyr yn barhaus mewn lleiafrif o sesiynau yn tarfu ar ddysgu. Er bod trefniadau cymorth newydd, fel y model 'hyfforddwr llwyddiant', yn dechrau cryfhau darpariaeth, nid yw eu heffaith wedi cael ei sefydlu'n llawn eto. Yn ychwanegol, nid yw cymorth ar gyfer dysgwyr ag ADY yn gyson effeithiol ar draws darpariaeth brif ffrwd.

Mae uwch arweinwyr yn darparu cyfeiriad strategol clir i'r coleg, wedi'i gefnogi gan strwythurau arwain cryfach, cydweithio a gweledigaeth yn canolbwyntio ar wella profiad, cynhwysiant a deilliannau dysgwyr. Mae arweinwyr yn alinio cynllunio ariannol a buddsoddi mewn ystadau a chyfleusterau arbenigol yn dda gyda blaenoriaethau strategol. Mae llywodraethwyr yn darparu goruchwyliaeth briodol ac yn cryfhau eu trefn o ran craffu ar berfformiad. Mae arweinwyr wedi cyflwyno ystod o fentrau i wella prosesau sicrhau ansawdd a hunanwerthuso, ac maent yn hyrwyddo dysgu proffesiynol yn effeithiol. Fodd bynnag, mae cyflymdra a graddfa'r newid wedi arwain at amrywioldeb mewn gweithredu a diffyg eglurder ar gyfer staff mewn rhai meysydd. Nid yw prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant yn ddigon manwl gywir na gwerthusol yn gyson, yn enwedig o ran deilliannau dysgwyr. Nid yw systemau data wedi eu hintegreiddio'n llawn â'i gilydd ac nid yw capasiti i gefnogi blaenoriaethau coleg cyfan, fel datblygu'r Gymraeg ac arfer ADY, wedi eu datblygu o hyd.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud pum argymhelliad i helpu'r coleg i barhau i wella, sef:

A1 Gwella deilliannau dysgwyr ar draws rhaglenni galwedigaethol ac academaidd

A2 Gwella ansawdd yr addysgu, yn cynnwys ymestyn a herio dysgwyr yn gyson a chryfhau ansawdd holi i ddyfnhau dealltwriaeth

A3 Sicrhau bod anghenion dysgwyr ag ADY yn cael eu nodi a'u deall gan bob un o'u hathrawon a gwneud addasiadau priodol i weithgareddau addysgu a dysgu

A4 Gwella manwl gywirdeb a chysondeb hunanwerthuso a chynllunio gwelliant i lywio nodi blaenoriaethau gwella yn glir a monitro mesurau llwyddiant yn drylwyr

A5 Cynyddu cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu eu medrau Cymraeg a'u dealltwriaeth o ddiwylliant Cymru ar draws y cwricwlwm

## Beth sy'n digwydd nesaf

Mae PAEF o'r farn fod gan y darparwr agwedd ar addysg a hyfforddiant nad yw'n ddigonol i ddiwallu anghenion rhesymol y rhai sy'n derbyn yr addysg. Bydd y darparwr yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd y darparwr ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn.

## Prif ganfyddiadau

### Addysgu a dysgu

Ar draws y coleg, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu ac yn ymgysylltu'n dda â'u hastudiaethau. Bron ym mhob sesiwn, mae ymddygiad dysgwyr yn barchus ac mae dysgwyr yn dal ati i ganolbwyntio yn briodol. Mae llawer o ddysgwyr yn gweithio'n dda yn annibynnol ac ar y cyd. Er enghraifft, yn y cyfryngau creadigol, mae dysgwyr yn gweithio'n ddiwyd ar brosiectau terfynol, ac mewn amgylcheddau ymarferol, mae dysgwyr yn ymfalchïo yn eu gwaith ac yn cynnal amgylcheddau trefnus a diogel.

Mewn sesiynau a arsylwyd yn ystod yr arolygiad, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn datblygu gwybodaeth a medrau ymarferol priodol ar gyfer eu cyfnod dysgu. Mewn gweithdai peirianneg, mae dysgwyr yn cymhwyso arferion gweithio diogel fel mater o drefn ac yn defnyddio offer arbenigol yn hyderus. Mae dysgwyr adeiladu yn dehongli darluniau technegol ac yn defnyddio meddalwedd arbenigol yn fedrus. Mewn dosbarthiadau Safon Uwch, mae dysgwyr cemeg yn esbonio proses esteru yn gywir, ac mae dysgwyr hanes yn seilio'u dadleuon ar dystiolaeth briodol wrth drafod Brwydr Prydain.

Mae bron pob un o'r athrawon yn creu amgylcheddau dysgu pwrpasol a digynnwrf sy'n ffafriol i ddysgu. Mae ystafelloedd dosbarth a gweithdai yn drefnus, ar y cyfan, ac yn cael eu trefnu'n briodol ar gyfer y maes pwnc, gydag arddangosfeydd, adnoddau ac offer perthnasol sy'n atgyfnerthu'r cwricwlwm ac yn cefnogi dealltwriaeth dysgwyr o'u rhaglenni astudio. Yn yr amgylcheddau hyn, mae athrawon yn dangos gwybodaeth bynciol gadarn ac yn cynllunio sesiynau'n ofalus gydag amcanion clir. Maent yn defnyddio arddangosiadau yn bwrpasol i ddangos i ddysgwyr sut i gwblhau tasgau fesul cam, ac yn esbonio'n glir sut mae'r rhain yn cysylltu â'r medrau a'r wybodaeth y mae angen i ddysgwyr eu datblygu. Mewn gwaith coed a phlymwaith, mae athrawon yn modelu technegau ac yn cysylltu dysgu ag arfer diwydiant go iawn, ac mewn 'Menywod mewn Adeiladu', mae athrawon yn defnyddio iaith dechnegol glir i fagu hyder dysgwyr ac annog cyfranogiad.

Mae ansawdd holi athrawon i gefnogi dysgu ar draws y coleg yn rhy amrywiol. Mewn sesiynau cryfach, mae athrawon yn gofyn cwestiynau treiddgar, wedi'u dilyniannu'n dda sy'n annog dysgwyr i esbonio'u meddwl a rhoi ymatebion estynedig. Mae'r dulliau hyn yn ennyn diddordeb dysgwyr yn weithredol mewn trafodaethau ac yn eu helpu i ddyfnhau eu dealltwriaeth. Fodd bynnag, yn aml, mae athrawon yn dibynnu'n bennaf ar gwestiynau byr, caeedig sy'n canolbwyntio ar alw gwybodaeth i gof. O ganlyniad, nid yw athrawon yn datblygu rhesymu dysgwyr yn gyson neu'n eu hannog i archwilio syniadau yn fanwl, ac mae ychydig o ddysgwyr yn ymddieithrio ac yn dod yn oddefol am gyfnodau parhaus.

Mewn llawer o sesiynau, nid yw athrawon yn ymestyn a herio dysgwyr yn ddigonol trwy'r gweithgareddau cynlluniedig, nac wrth eu cyflwyno. Yn y sesiynau hyn, nid yw athrawon yn darparu digon o dasgau na gweithgareddau sy'n hyrwyddo meddwl dyfnach, datblygu medrau ar lefel uwch neu ddadansoddi mwy beirniadol. O ganlyniad, mae dysgwyr mwy abl yn cwblhau tasgau'n gyflym heb gael eu herio i ddyfnhau eu dealltwriaeth na gweithio tuag at gyflawni deilliannau uwch.

Mae llawer o athrawon yn defnyddio adborth adeiladol yn dda i helpu dysgwyr i ddeall sut i wella. Er enghraifft, mewn sesiynau gweithdy, mae athrawon yn arsylwi technegau dysgwyr ac yn rhoi adborth ar lafar i gywiro gwallau neu ddangos dulliau gwell. Ar y cyfan, mae adborth wedi'i gofnodi'n fanwl, yn adeiladol ac yn hygyrch i ddysgwyr trwy blatfformau digidol.

Mae athrawon a hyfforddwyr llwyddiant ar draws y coleg yn defnyddio ystod eang o systemau i olrhain cynnydd dysgwyr. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae ganddynt ddealltwriaeth glir o gynnydd dysgwyr ac maent yn monitro hyn yn rheolaidd trwy gydol y flwyddyn. Mae gan lawer o ddysgwyr dargedau clir y maent yn eu deall, ac sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd trwy gydol eu cwrs. Fodd bynnag, yn aml, nid yw targedau'n ddigon heriol, ac mae ychydig o ddysgwyr yn ansicr o hyd am eu targedau a'u cynnydd cyffredinol.

Mae medrau llythrennedd dysgwyr yn gadarn ac yn briodol ar gyfer eu lefel, ar y cyfan. Mae llawer o ddysgwyr yn cymhwyso sillafu, gramadeg a therminoleg sy'n benodol i bwnc yn gywir mewn gwaith ysgrifenedig ac yn cyfathrebu'n dda â'u hathrawon a'u cyfoedion. Mewn ychydig o feysydd galwedigaethol, fel nyrsio milfeddygol a gwyddoniaeth gymhwysol, mae dysgwyr yn datblygu eu medrau rhifedd yn dda pan mae athrawon yn cysylltu cysyniadau mathemategol â thasgau ymarferol a chyfrifiadau. Mae'r coleg wedi rhoi fframwaith defnyddiol ar waith yn ddiweddar i helpu athrawon i ymgorffori llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm, er ei bod yn rhy gynnar i werthuso'i effaith.

### Ciplun: Datblygu medrau llythrennedd a rhifedd yn effeithiol yng nghyd-destun pynciol rhaglenni lefel 3

Mae dysgwyr sy'n ymgymryd â sesiynau llythrennedd a rhifedd lefel 3 yn nodi bod y llwybrau hyn yn darparu cysylltiadau cliriach rhwng datblygu medrau a'u rhaglenni galwedigaethol neu academaidd. Maent yn arbennig yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd i gymhwyso llythrennedd a rhifedd o fewn cyd-destunau sy'n benodol i bwnc, fel cyfrifiadau trethiant a thasgau dadansoddol ysgrifenedig ynghylch risgiau a manteision deallusrwydd artiffisial (AI) o fewn addysg a byd gwaith. Maent yn cydnabod sut bydd hyn yn eu helpu i gryfhau'r medrau sydd eu hangen arnynt ar gyfer astudio ymhellach a chyflogaeth.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn dangos medrau digidol cadarn sy'n cefnogi eu dysgu yn effeithiol. Maent yn defnyddio platfformau digidol yn hyderus i fynd at ddeunyddiau aseiniadau, adolygu adborth a gwirio'u presenoldeb a'u cynnydd. Mae dysgwyr peirianneg yng nghanolfan HiVE yn dangos medrau digidol cryf wrth ddefnyddio ystod eang o

feddalwedd arbenigol. Mae llawer o athrawon yn defnyddio offer digidol yn effeithiol i gefnogi dysgu. Mae llawer o ddysgwyr yn deall y ffiniau ynghylch defnydd priodol o ddeallusrwydd artiffisial yn eu gwaith. Fodd bynnag, dywed ychydig ohonynt nad ydynt wedi cael arweiniad clir ar ddefnydd diogel a moesegol o ddeallusrwydd artiffisial o fewn eu maes pwnc penodol.

Mewn darpariaeth Medrau Byw yn Annibynnol (MBA), mae'r coleg yn darparu cwricwlwm cynhwysfawr sydd wedi'i gyfoethogi gan weithgareddau buddiol fel tripiau dramor, sesiynau lles a chyfleoedd gwirfoddoli. Mae sesiynau yn hyrwyddo diwylliant cynhwysiant cryf, disgwyliadau uchel ac arfer ddyheadol. Yn yr enghreifftiau gorau, mae staff yn adnabod dysgwyr yn dda ac yn cynllunio gweithgareddau pwrpasol yn gysylltiedig â thargedau unigol a chyrchfannau yn y dyfodol. Mae dysgwyr yn ymarfer medrau bywyd go iawn trwy weithgareddau fel defnyddio fflat y coleg neu weithio yn y 'Caffi Cwtch'. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr MBA yn dangos agweddau cadarnhaol ac yn gwneud cynnydd cadarn tuag at annibyniaeth. Fodd bynnag, mewn ychydig o sesiynau, mae cyfarwyddyd gormodol gan athrawon a dibyniaeth ormodol ar daflenni gwaith yn cyfyngu ar ddealltwriaeth ddyfnach dysgwyr a chymhwyso medrau yn ddilys.

Mae llawer o athrawon yn deall anghenion dysgu ychwanegol dysgwyr. Maent yn darparu amgylcheddau dysgu cefnogol ac yn addasu eu haddysgu yn unol â hynny. Er enghraifft, mewn addysg yn gysylltiedig â gwaith Lefel 2, mae athro yn rheoli grŵp ag ystod eang o anghenion cymorth yn effeithiol, gan ganiatáu amser i ddysgwyr gyfrannu tra'n cynnal ffocws a chynnig arweiniad ar lafar. Mewn ychydig o sesiynau prif ffrwd, nid yw athrawon a staff cymorth yn addasu gweithgareddau nac yn darparu digon o her i ddiwallu anghenion penodol dysgwyr ag ADY.

Nid yw cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu eu medrau Cymraeg a'u dealltwriaeth o ddiwylliant Cymru wedi eu datblygu'n ddigonol. Yn yr enghreifftiau gorau, o fewn sectorau blaenoriaeth, mae hwyluswyr y Gymraeg yn cefnogi hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'i diwylliant. Er enghraifft, mae dysgwyr gofal plant yn ymarfer y Gymraeg yn ystod gweithgareddau lleoli gyda phlant ifanc. I'r gwrthwyneb, o fewn sectorau nad ydynt yn rhai blaenoriaethol, anaml y mae athrawon yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg neu'i diwylliant neu'n defnyddio adnoddau dwyieithog o fewn sesiynau. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn y sesiynau hyn yn gwneud cynnydd annigonol yn datblygu eu medrau Cymraeg a'u dealltwriaeth o ddiwylliant Cymru.

Mae dysgwyr ar gyrsiau galwedigaethol yn cyfrif am ryw dri chwarter o ddarpariaeth amser llawn. Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae dysgwyr ar gyrsiau galwedigaethol lefel mynediad wedi perfformio uwchlaw cyfartaleddau cenedlaethol yn gyson. Fodd bynnag, mae dysgwyr ar gyrsiau ar lefelau 1, 2 a 3, sy'n cyfrif am y rhan fwyaf o'r dysgwyr ar gyrsiau galwedigaethol, yn gyffredinol, wedi perfformio ar gyfraddau sydd ymhell islaw cyfartaleddau cenedlaethol cyfnodau 2022-2024. Mae'r data deilliannau cyhoeddedig

swyddogol diweddaraf ar gyfer 2024-2025 yn dangos bod deilliannau wedi gwella ar draws mwyafrif y lefelau galwedigaethol, yn cynnwys gwelliannau nodedig ar lefelau 2 a 3, serch hynny, mae deilliannau yn parhau i fod islaw cyfartaleddau cenedlaethol ar bob lefel heblaw ar gyrsiau lefel mynediad.

Mae dysgwyr sy'n astudio cyrsiau Safon Uwch yn cyfrif am ryw chwarter o ddarpariaeth amser llawn. Dros y tair blynedd ddiwethaf, llwyddodd dysgwyr i ennill tri chymhwyster Safon Uwch neu fwy ar raddau A*-E ar gyfraddau ymhell islaw'r cyfartaledd cenedlaethol. Roedd cyfraddau cadw o UG i A2 ymhell islaw cyfartaleddau cenedlaethol hefyd yn ystod yr un cyfnod.

Mae'r gyfradd lwyddo gyffredinol ar gyfer dysgwyr ar y Dystysgrif Her Sgiliau a'r cymhwyster a'i disodlwyd, Bagloriaeth Sgiliau Cymru Uwch, wedi bod ymhell islaw'r cyfartaledd cenedlaethol.

I wella addysgu a dysgu ymhellach, dylai'r coleg ganolbwyntio ar:

- Wella deilliannau ar draws rhaglenni galwedigaethol ac academaidd, yn enwedig lle maent yn sylweddol islaw cyfartaleddau cenedlaethol
- Sicrhau bod addysgu yn ymestyn a herio pob un o'r dysgwyr yn gyson i gyflawni hyd eithaf eu gallu
- Cryfhau ansawdd holi athrawon mewn gwersi i ddatblygu rhesymu dysgwyr, hyrwyddo trafodaeth gyfoethocach a dyfnhau dealltwriaeth
- Cynyddu cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu eu medrau Cymraeg a'u dealltwriaeth o ddiwylliant Cymru ar draws y cwricwlwm

### Lles, gofal, cymorth ac arweiniad

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn teimlo'n ddiogel ac yn saff ar y campws ac yn gwybod ble y gallant fynd neu gyda phwy y gallant siarad os oes ganddynt broblem. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr wedi eu cymell i ddysgu ac mae ganddynt berthnasoedd parchus a chadarnhaol â'u cyfoedion a staff. Yn gyffredinol, mae dysgwyr yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac o gwmpas campysau.

Mae'r coleg wedi ymrwymo i ddull sy'n ystyriol o drawma i weithio gyda dysgwyr sy'n llywio polisïau a gweithdrefnau, gan helpu creu amgylchedd dysgu cefnogol a diogel. Ers rhoi'r dull hwn ar waith, mae'r coleg wedi nodi gostyngiad mewn atgyfeiriadau argyfwng, achosion o ymddygiad heriol a gwaharddiadau. Mae staff yn datblygu dealltwriaeth fwy cynnil o achosion ymddygiad gwael a sut orau i fynd i'r afael â nhw. Fodd bynnag, nid oes gan ychydig o staff hyder i reoli achosion o ymddygiad heriol.

Mae'r coleg yn meithrin amgylchedd cadarnhaol a chynhwysol. Er enghraifft, darparwyd ystafelloedd ffydd ychwanegol i gefnogi gweddïo yn ystod Ramadan. Mae'r coleg yn cynnal

digwyddiadau i ddathlu mis hanes LHDTC+, ac ar ôl adborth dysgwyr, wedi addasu dewisiadau bwyd i gynnwys ystod ehangach o flasau rhyngwladol.

At ei gilydd, mae presenoldeb dysgwyr yn nodweddiadol ar gyfer colegau yng Nghymru, gyda dysgwyr yn absennol o un gwers ym mhob pump ar gyfartaledd. Mae gan y coleg ddulliau effeithiol ar gyfer nodi dysgwyr unigol y mae eu presenoldeb yn peri pryder, ac ar gyfer monitro a dadansoddi patrymau presenoldeb ar draws cyrsiau a champysau. Mae presenoldeb hynod wael mewn ychydig o feysydd dysgu a chyrsiau. Mae arweinwyr yn ymwybodol o'r rhain ac wedi cymryd camau addas i leihau rhwystrau rhag mynychu i ddysgwyr, fel addasu amseroedd gwersi ar gampws Brynbuga i ddarparu ar gyfer dysgwyr sy'n teithio pellterau hir.

Mewn lleiafrif o wersi, mae dysgwyr yn cyrraedd yn hwyr. Yn rhy aml, mae hyn yn tarfu ar ddysgu ac yn effeithio ar allu'r athro i adeiladu ar, a chynnal, llif y wers.

Gall dysgwyr fanteisio ar becyn cyflawn o wasanaethau cymorth a gyflwynir trwy hybiau ar bob campws. Mae hyn yn cynnwys cymorth bugeiliol, lles a medrau astudio, cyfarwyddyd gyrfaoedd a dilyniant, a gwasanaeth cwnsela. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn ymwybodol o'r gwasanaethau hyn. Mae swyddogaeth yr 'hyfforddwr cymorth' yn effeithiol o ran helpu dysgwyr sy'n profi anawsterau i aros yn y coleg a pharhau â'u hastudiaethau. Mae llyfrgell ag adnoddau da ar bob campws sy'n cael ei gwerthfawrogi gan ddysgwyr. Mewn llyfrgelloedd, gall dysgwyr droi at hyfforddwyr cynnydd sy'n darparu cymorth unigol defnyddiol â llythrennedd a rhifedd. Mae llyfrgelloedd hefyd yn hyrwyddo 'Her Ddarllen Coleg Gwent' i annog dysgwyr i ddatblygu arferion darllen da ar gyfer astudio ac er pleser.

### Ciplun: 'Clwb byddar' yn cynnig cymorth i ddysgwyr â namau synhwyraidd

Mae Coleg Gwent yn cydweithio'n effeithiol â Sencom, sef gwasanaeth synhwyraidd i gefnogi dysgwyr â namau ar y clyw neu'r golwg. Mae'r dysgwyr hyn yn crybwyll pontio cadarnhaol i'r coleg, gyda system glir i'w cefnogi i fanteisio ar bob agwedd ar fywyd y coleg.

Caiff dysgwyr gymorth unigol, maent yn elwa ar allu manteisio ar dechnoleg gynorthwyol, gweithwyr cymorth BSL, Saesneg wedi'i chefnogi gan arwyddion, arweiniad ar ddarllen gwefusau a strategaethau clir ar gyfer staff ac addasiadau pwysig eraill ar gyfer dysgu. Mae'r coleg hefyd yn trefnu sesiynau cyngor ac arweiniad targedig i ddysgwyr byddar, er enghraifft trwy bartneriaethau ag asiantaeth gyflogaeth i ddod o hyd i brofiad gwaith a hyfforddiant ar gyfer dysgwyr byddar.

Mae 'Clwb Byddar Coleg Gwent' yn cynnig cymorth cymdeithasol ac emosiynol pwrpasol, gan leihau unigedd a hybu hyder i helpu dysgwyr i ddatblygu eu medrau iaith arwyddion, cyfarfod â dysgwyr eraill mewn sefyllfa debyg a chymryd rhan mewn gweithgareddau difyr, er enghraifft diwrnod lles a thaith a drefnwyd i ddysgwyr byddar gyfarfod â'u cyfoedion ar gampws Casnewydd.

Yn ddiweddar, mae'r coleg wedi newid i ddefnyddio model 'hyfforddwr llwyddiant' i gefnogi ei raglen diwtorial academaidd. Mae hyfforddwyr llwyddiant yn gweithio gyda phob maes dysgu i gyflwyno rhaglen diwtorial ddiweddaraf y coleg a chefnogi cynnydd academaidd dysgwyr, gosod targedau a gofal bugeiliol. Mae arweinwyr yn monitro rhoi'r rhaglen ar waith ar lefel adran, er ei bod yn rhy gynnar i werthuso'i heffaith yn llawn.

Mae'r coleg yn darparu ystod ddefnyddiol o gyngor ac arweiniad i ddysgwyr. Er enghraifft, mae dysgwyr yn defnyddio ap defnyddiol, 'CG Connect', sy'n eu galluogi i wirio'u hamserlen, monitro'u presenoldeb, eu prydlondeb a'u cynnydd, a chael mynediad at wasanaethau ar-lein y coleg, yn cynnwys cymorth lles. Mae llawer o ddysgwyr yn glir am eu llwybrau dilyniant a'r camau nesaf. Maent yn elwa ar ystod o ddigwyddiadau defnyddiol yn canolbwyntio ar gyrchfannau fel cymorth UCAS, clwb cychwyn busnes, sesiynau paratoi ar gyfer cyfweliad, digwyddiadau gwybodaeth am brentisiaethau a ffeiriau dilyniant.

Mae'r coleg yn darparu ystod eang o brofiadau gwerthfawr y tu hwnt i'r cwricwlwm i ymestyn datblygiad personol dysgwyr. Mae'r rhain yn cynnwys gweithgareddau gwobr Dug Caeredin, cystadlaethau medrau ac ymweliadau dramor. Yn ychwanegol, mae dysgwyr ar draws campysau yn mynychu amrywiaeth o glybiau, fel y 'clwb cyfuno' ('fusion club') i ddatblygu medrau cymdeithasol neu'r 'clwb cartrefol' ('home from home club') ar gyfer myfyrwyr o Wcráin. Gall dysgwyr hefyd ddefnyddio'r gronfa 'arian parod ar gyfer newid' ('cash 4 change') i wneud cais am gyllid ar gyfer prosiectau sy'n cefnogi mentrau amgylcheddol, cymunedol a chymdeithasol. Er enghraifft, mae'r cyllid hwn wedi cefnogi prynu offer sy'n galluogi dysgwyr MBA i wirfoddoli mewn castell lleol ac ymddiriedolaeth leol bywyd gwyllt.

Mae'r coleg yn gwrando ar ddysgwyr yn dda ac yn darparu cyfleoedd buddiol iddynt gyfrannu at drafodaethau am fywyd y coleg. Er enghraifft, caiff dysgwyr eu cynnwys mewn datblygu'r broses dendro ar gyfer contractau arlwyo newydd yn dilyn pryderon a godwyd am amrywiaeth y dewisiadau bwyd sydd ar gael. Ceir rhwydwaith helaeth i gynrychioli dysgwyr sy'n darparu amryfal gyfleoedd i ddysgwyr ymgysylltu â rheolwyr, yn cynnwys fforymau dysgwyr, grwpiau llywio profiad dysgwyr a holiaduron llais y dysgwr.

Mae gan y coleg brosesau pontio addas ar waith ar gyfer dysgwyr sy'n ymuno â'r coleg, gan gynnwys cyfnod pontio estynedig ar gyfer dysgwyr ag ADY. Yn ddiweddar, mae'r coleg wedi ymestyn y cyfnod pontio estynedig hwn i gynnwys dysgwyr lefel 1 y nodwyd eu bod mewn perygl o ymddieithrio, er enghraifft cynnwys dysgwyr sy'n pontio o addysg heblaw yn yr ysgol neu o addysg ddewisol yn y cartref.

Mae'r coleg yn darparu ystod addas o gyfleoedd dysgu proffesiynol buddiol ar gyfer staff cymorth dysgu. Mae'r sesiynau hyn yn canolbwyntio'n briodol ar ddeall anghenion dysgu penodol, datblygu strategaethau cynhwysol a chefnogi dysgwyr ag anghenion meddygol neu anghenion gofal personol. Mae staff cymorth yn nodi bod yr hyfforddiant hwn wedi gwella'u hyder a'u gallu i ddiwallu anghenion dysgwyr yn effeithiol. Fodd bynnag, mae'r

cynnig dysgu proffesiynol ar gyfer rôl yr hyfforddwr llwyddiant newydd yn llai cynhwysfawr ac nid yw wedi'i sefydlu'n llawn.

Yn ddiweddar iawn, mae'r coleg wedi cyflwyno dull a strwythur newydd ar gyfer cefnogi dysgwyr ag ADY. Er bod arweinwyr wedi nodi diffygion mewn addysgu yn gywir ar gyfer dysgwyr ag ADY o fewn ychydig o wersi ar gyrsiau prif ffrwd, nid yw dysgu proffesiynol wedi bod yn ddigon effeithiol o ra sicrhau bod athrawon yn deall yn gyson sut i addasu eu haddysgu i fodloni cynlluniau datblygu unigol (CDUau) dysgwyr.

Mae gweithdrefnau diogelu yn gadarn ac nid ydynt yn peri pryder. Mae'r coleg yn gweithio'n effeithiol gyda phartneriaid, yn cynnwys awdurdodau lleol a'r heddlu, i ymateb i dueddiadau sy'n dod i'r amlwg, ac yn darparu cymorth priodol ar gyfer dysgwyr. Mae arweinwyr yn dechrau defnyddio system electronig ar gyfer diogelu cofnodion a roddwyd ar waith yn ddiweddar i fonitro a gwerthuso pryderon diogelu yn fwy effeithiol nag y gallent gyda'u system flaenorol.

I wella ymhellach, dylai'r coleg ganolbwyntio ar y canlynol:

- Gwella cysondeb yr addysgu ar gyfer dysgwyr ar gyrsiau prif ffrwd ag ADY
- Gwella presenoldeb a phrydlondeb
- Ymgorffori a gwerthuso'r systemau a'r prosesau newydd niferus sydd ar waith i oruchwylio gofal, cymorth ac arweiniad i ddysgwyr

### Arwain a gwella

Mae'r Prif Swyddog Gweithredol yn gosod diben clir a chyfeiriad strategol ar gyfer y coleg. Mae'n cael cefnogaeth dda gan dri is-bennaeth sydd â chyfrifoldebau a rolau strategol wedi eu diffinio'n glir. Gyda'i gilydd, maent yn gosod gweledigaeth gydlynus sy'n rhoi pwyslais cryf ar brofiad, cynhwysiant a deilliannau gwell dysgwyr. Mae ailstrwythuro diweddar wedi cryfhau capasiti uwch arweinyddiaeth i adlewyrchu graddfa a chymhlethdod y coleg. Cyflawnwyd hyn trwy gyfuniad o ddyrchafiadau mewnol a recriwtio allanol. Mae arweinwyr yn cyfleu blaenoriaethau'n gyson trwy ddulliau strwythuredig fel sioeau teithiol yr uwch dîm arweinyddiaeth a chylchlythyr *In Touch*.

Mae arweinwyr yn cynllunio'n uchelgeisiol ar gyfer dyfodol y coleg ac yn alinio cynllunio ariannol yn briodol â blaenoriaethau strategol. Maent wedi sefydlu cynllun iechyd ariannol clir i gefnogi cynaliadwyedd tymor hwy, yn cynnwys targedau arbedion a nodwyd a goruchwyliaeth ariannol bwrpasol. Mae gan y coleg strategaeth ystadau uchelgeisiol sy'n cynnwys y ganolfan Peirianneg Gwerth Uchel (HiVE) a datblygiadau mawr yn y tymor hwy, fel prosiect Crosskeys, gyda sylw priodol yn cael ei roi i leihau tarfu ar gyfer dysgwyr.

Mae arweinwyr yn buddsoddi'n dda mewn adnoddau arbenigol i ymestyn profiadau dysgwyr. Er enghraifft, maent wedi buddsoddi'n gryf mewn adnoddau ymarferol, yn cynnwys cyfleusterau ceffylau a nyrsio milfeddygol yn safle'r tir ym Mrynbuga,

meddalwedd gyfoes yn y celfyddydau creadigol ac offer ar draws campysau, ac adnoddau peirianneg uwch o ansawdd uchel o'r radd flaenaf yng nghanolfan HiVE.

Mae llywodraethwyr yn monitro risg strategol ac iechyd ariannol yn dda ac mae ganddynt ddealltwriaeth resymol o berfformiad y coleg yn gysylltiedig â'r agweddau hyn. Maent yn cael eu cefnogi gan arweinwyr y coleg ar hyn o bryd i wella'u dealltwriaeth a chraffu ar ddeilliannau dysgwyr. Mae llywodraethwyr wedi elwa ar hyfforddiant defnyddiol diweddar sy'n anelu at wella effeithiolrwydd yn yr agwedd hon ar eu rôl.

Mae arweinwyr wedi cyflwyno ystod eang o fentrau pwrpasol, strwythurau diwygiedig a phrosesau wedi'u diweddaru mewn cyfnod cymharol fyr, sy'n adlewyrchu ymdrech gref tuag at welliant. Mae enghreifftiau'n cynnwys yr *Adduned Athro (Teacher Pledge),* sef set glir o ddisgwyliadau o ran dysgwyr a staff, a strategaeth medrau ddiwygiedig. Mae'r mentrau hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar brofiadau dysgwyr. Fodd bynnag, mae graddfa a chyflymdra'r newid weithiau'n cael effaith andwyol ar weithredu cyson ar gyfer staff a dysgwyr. Er enghraifft, nid yw rôl yr hyfforddwr llwyddiant wedi'i sefydlu'n gyson. Mae llinellau cyfrifoldeb rhwng athrawon a hyfforddwyr llwyddiant, yn enwedig ar gyfer presenoldeb a phrosesau bugeiliol, yn aneglur. Mae'r diffyg eglurder hwn yn effeithio ar gysondeb profiadau dysgwyr.

Mae arweinwyr wedi cryfhau'r cylch ansawdd trwy brosesau sicrhau ansawdd wedi'u diweddaru, yn cynnwys adolygiadau a threfniadau dilysu mewnol. Maent yn nodi blaenoriaethau gwella perthnasol ac yn dechrau datblygu dulliau mwy cain i olrhain cynnydd ar lefel cwricwlwm. Mae hyn yn helpu cefnogi gwelliannau yn neilliannau a safonau dysgwyr. Mae arweinwyr hefyd wedi sefydlu fframwaith hunanwerthuso a gwella ansawdd cynhwysfawr. Mae'r broses hunanasesu yn darparu trosolwg defnyddiol o berfformiad ac mae'r cynllun gwella ansawdd yn adlewyrchu meysydd allweddol i'w gwella yn gywir. Fodd bynnag, mewn ychydig o feysydd, nid yw'r cynllun yn ddigon craff nac yn ddigon manwl gywir wrth nodi a monitro'r blaenoriaethau pwysicaf ar gyfer gwella. Fodd bynnag, mae'r adroddiad hunanwerthuso diweddaraf yn cyflwyno gwerthusiad rhy gadarnhaol o ddeilliannau dysgwyr cyffredinol a galwedigaethol, ac nid yw'n nodi agweddau allweddol ar danberfformio ar draws y ddau faes hyn o ddarpariaeth.

Mae uwch arweinwyr yn cefnogi arweinwyr canol yn dda i ymgymryd â'u rolau. I ymateb i hynny, mae arweinwyr canol yn ymgysylltu'n gadarnhaol â'r cymorth hwn ac wedi cael eu grymuso i arwain datblygiadau strategol allweddol ar draws y coleg tra'n parhau i wella perfformiad eu meysydd cyfrifoldeb. Maent yn gweithio'n effeithiol fel grŵp ac yn cefnogi eu timau'n gyson trwy gyfarfodydd a chyfathrebu rheolaidd.

Mae arweinwyr canol wedi cael hyfforddiant defnyddiol i gryfhau eu harfer arwain. Lle mae arfer ar ei chryfaf, mae arweinwyr canol yn defnyddio data a thystiolaeth uniongyrchol yn dda i lywio hunanwerthuso. Yn yr achosion hyn, maent yn nodi camau gweithredu clir ac yn monitro cynnydd yn briodol. Er enghraifft, trwy'r broses sicrhau ansawdd, mae

arweinwyr canol yn nodi tri maes ffocws blaenoriaethol ar gyfer eu hadrannau. O ganlyniad, mae hunanwerthuso wedi cryfhau ac yn cysylltu'n fwy effeithiol â chynllunio gwelliant, erbyn hyn. Fodd bynnag, nid yw'r arfer hon yn gyson ar draws adrannau ac mae ansawdd hunanwerthuso yn rhy amrywiol. O ganlyniad, nid oes gan arweinwyr canol ddealltwriaeth ddigon manwl o gryfderau a meysydd i'w gwella ar lefel rhaglen bob amser.

Mae arweinwyr yn symleiddio systemau data ac yn symud tuag at ddull dangosfwrdd data mwy cydlynus o adrodd, gyda gweithredu yn digwydd mewn camau. Ar hyn o bryd, mae staff yn defnyddio ystod ddefnyddiol o systemau a ffynonellau nad ydynt wedi cael eu hintegreiddio'n llawn. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd defnyddio data yn effeithlon ac yn gyson ar draws campysau.

Mae arweinwyr yn darparu cwricwlwm eang a helaeth ar draws campysau, yn cynnwys ystod eang o lwybrau galwedigaethol ac academaidd. Mae'r coleg yn cynnig dros 30 o bynciau Safon Uwch ochr yn ochr â darpariaeth arbenigol sy'n cyd-fynd yn briodol ag anghenion cyflogwyr lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Caiff llwybrau cwricwlwm eu llywio'n addas trwy gydweithio â rhanddeiliaid, yn cynnwys awdurdodau lleol, Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol a chyflogwyr. Er enghraifft, arweiniodd cydweithio â Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ac ysgolion lleol at ail-ffurfweddu darpariaeth ôl-16 at ddatblygu Parth Dysgu Torfaen a agorwyd yn 2021. Mae hyn yn galluogi dysgwyr i fanteisio ar gynnig academaidd a galwedigaethol eang sy'n cyd-fynd yn agosach ag angen lleol.

Caiff adnoddau Cymraeg a dwyieithog eu dyrannu i feysydd blaenoriaeth. Mae dysgu proffesiynol i gefnogi datblygiad medrau Cymraeg ar draws y gweithlu mewn meysydd nad ydynt yn flaenoriaeth yn gyfyngedig. O ganlyniad, mae capasiti staff i hyrwyddo'r Gymraeg yn gyson ar draws y cwricwlwm hefyd yn gyfyngedig.

Mae arweinwyr yn hyrwyddo dysgu proffesiynol yn dda ar draws y coleg ac yn meithrin diwylliant sy'n annog staff i fyfyrio ar eu harfer, a'i gwella. Mae staff yn elwa ar ystod eang o gyfleoedd dysgu proffesiynol a dulliau strwythuredig sy'n cefnogi cydweithio a deialog broffesiynol. Mae'r cyfleoedd hyn yn helpu staff i ddatblygu eu harfer addysgu a'u harbenigedd pwnc. Yn ychwanegol, mae arweinwyr yn cynorthwyo staff i ymgysylltu â dysgu proffesiynol sy'n cyd-fynd yn briodol â blaenoriaethau strategol a datblygiadau'r cwricwlwm.

### Ciplun: Cynorthwyo staff i wella addysgu a dysgu trwy ystod eang o gyfleoedd dysgu proffesiynol

Mae arweinwyr yn darparu ystod eang o gyfleoedd dysgu proffesiynol sy'n cynorthwyo staff i wella eu haddysgu a datblygu arbenigedd. Er enghraifft, trwy'r Rhaglen Llwyddiant Athrawon a phrosiectau ymchwil weithredu, mae staff yn archwilio dulliau newydd o addysgu, gan gynnwys *defnyddio deallusrwydd artiffisial i gefnogi dysgu mewn cyd-destunau galwedigaethol*. Mae rhaglen strwythuredig o arsylwadau cymheiriaid a rheolwyr llinell yn cynnig cyfleoedd defnyddiol ar gyfer deialog broffesiynol a myfyrio. Mae'r prosesau hyn yn helpu athrawon i nodi strategaethau ymarferol i gryfhau eu haddysgu a chefnogi cynnydd dysgwyr. Mae arweinwyr hefyd yn cefnogi staff i ymgymryd â chymwysterau proffesiynol lefel uwch mewn meysydd arbenigol, fel seiberddiogelwch a pheirianneg uwch, gan helpu i gryfhau arbenigedd ar draws meysydd y cwricwlwm.

I wella ymhellach, dylai'r coleg ganolbwyntio ar y canlynol:

- Sicrhau bod y bwrdd llywodraethol yn parhau i gryfhau ei ffocws ar ansawdd y ddarpariaeth a gwella deilliannau dysgwyr
- Rheoli gweithredu mentrau a rolau newydd i sicrhau eglurder diben, a monitro'r effeithiolrwydd a'r effaith ar staff a dysgwyr
- Gwella manwl gywirdeb a chysondeb hunanwerthuso a chynllunio gwelliant fel bod blaenoriaethau a thargedau ar gyfer gwella a mesurau llwyddiant yn cael eu diffinio'n glir a'u monitro'n briodol
- Gwella datblygiad strategol yr iaith Gymraeg a'i diwylliant ar draws y coleg

## Gwybodaeth ychwanegol

### Trefniadau diogelu

Nid yw trefniadau'r darparwr ar gyfer diogelu pobl ifanc ac oedolion bregus yn achosi unrhyw bryder.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i ddysgwyr, ac yn ystyried barn athrawon a staff cymorth trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cyfarfod â'r prif weithredwr, llywodraethwyr, uwch reolwyr a rheolwyr canol ac athrawon unigol, hyfforddwyr a staff cymorth i werthuso effaith gwaith y darparwr
- yn cyfarfod â dysgwyr i drafod eu gwaith, gwrando arnynt a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu darparwr
- yn ymweld â sampl eang o sesiynau, gan gynnwys gweithgareddau ystafell ddosbarth, gweithdy ac ar-lein ar draws y ddarpariaeth
- yn arsylwi ac yn siarad â dysgwyr y tu allan i sesiynau
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r darparwr
- yn ystyried cynllun gwella ansawdd y darparwr ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r darparwr wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r darparwr, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd dysgwyr, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les dysgwyr, gan gynnwys diogelu dysgwyr, a chofnodion hyfforddiant a dysgu proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddysgwyr…'* neu *'ychydig iawn o ddysgwyr…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan y darparwr ac ar wefan Estyn (https://www.estyn.llyw.cymru/)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol â Deddf Dysgu a Sgiliau (2000).

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â’r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae’r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: https://www.estyn.llyw.cymru/

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae’r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu’n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 27/04/2026